Canllawiau Fforymau Mynediad Lleol: 1

# Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol

Cyngor ac arweiniad ar arferion da

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Y Cyngor Cefn Gwlad yw cynghorwr statudol y llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r wlad a dyfroedd ei glannau. Gyda English Nature a Scottish Natural Heritage, mae CCGC yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer Prydain Fawr ac yn rhyngwladol, drwy'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.

CCC 201, 2002 1.5k

Argraffwyd gan Imprint

Canllawiau Fforymau Mynediad Lleol: 1

# Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol

Cyngor ac arweiniad ar arferion da

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

# Cynnwys


1. **Y cefndir** .......... 1

2. **Sefydlu Fforwm** *Rheoliad 3* .......... 2
   2.1. Y rheidrwydd i sefydlu FfMLl /LAFs .......... 2
   2.2. Yr ardaloedd lle nad oes angen FfMLl .......... 2
   2.3. Y dyddiad terfynol ar gyfer sefydlu FfMLl .......... 2
   2.4. Sefydlu FfMLl ar y cyd .......... 2

3. **Aelodaeth y Fforwm** *Rheoliadau 4-9* .......... 3
   3.1. Nifer yr Aelodau .......... 3
   3.2. Cyfnod y penodiad .......... 3
   3.3. Dethol Aelodau .......... 3
      3.3.1 Y drefn ar gyfer dethol Aelodau .......... 4
      3.3.2. Y meini prawf ar gyfer dethol Aelodau .......... 6

4. **Gweinyddu fforwm** *Rheoliadau 10-11* .......... 7
   4.1. Ysgrifennydd y FfMLl .......... 7
   4.2. Treuliau .......... 7

5. **Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd** *Rheoliad 12* .......... 7

6. **Cynnal cyfarfodydd fforwm** *Rheoliad 15* .......... 8
   6.1. Amser a lleoliad y cyfarfodydd .......... 8
   6.2. Mynediad i'r cyhoedd .......... 8
   6.3. Rheoli'r trefnau .......... 8
   6.4. Statws yr arsylwyr a'r cynghorwyr .......... 8
   6.5. Cyfarfodydd dwyieithog .......... 9

7. **Hysbysu pobl am benodiadau ayyb** *Rheoliad 17* .......... 9

**Atodiadau** .......... 10

I Hysbyseb enghreifftiol yn gwahodd pobl i fynegi diddordeb .......... 10
II Canllawiau enghreifftiol ar gyfer aelodau posib y FfMLl .......... 11
III Ffurflen gais enghreifftiol ar gyfer aelodau posib y FfMLl .......... 13
IV Cylch gorchwyl enghreifftiol ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol .......... 16
V Eitemau enghreifftiol ar gyfer agenda'r ddau gyfarfod cyntaf .......... 18


Nodwch: Fe ddylech chi ddarllen y ddogfen yma ochr yn ochr â'r Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 - SI4002 (W.330). Mae'r ddogfen yma'n cyfeirio'n gyson at y rheoliadau yma, ac at unrhyw ganllawiau eraill sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

# 1. Y cefndir

Yn ôl y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rhaid i 'awdurdodau penodi' (Awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau priffyrdd mewn mannau eraill) benodi Fforymau Mynediad Lleol (FfMLl/LAFs). (Fe fyddwn yn cyfeirio at yr awdurdodau penodi drwy'r ddogfen yma fel AP). Fe ddaeth y ddyletswydd i sefydlu FfMLl yn weithredol ar Ionawr 1af 2002 gyda'r Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001. Rhaid i'r holl awdurdodau penodi sicrhau bod y fforymau yma ar waith erbyn Rhagfyr 31ain, 2002. Fe ddylech ddarllen y ddogfen yma ochr yn ochr â'r rheoliadau.

Mae'r ddogfen yma'n cynnwys cyngor ac arweiniad ar arferion da Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ar gyfer sefydlu Fforymau Mynediad Lleol, gyda sylw arbennig i'r rheoliadau. Maen nhw wedi cael eu bwriadu fwyaf ar gyfer y bobl yn yr awdurdodau penodi sy'n gyfrifol am sefydlu FfMLl. Ond, y gobaith yw y bydd y rhain o ddiddordeb i bobl eraill hefyd, yn cynnwys aelodau ac aelodau posib o'r FfMLl.

Mae'n rhoi cyngor yn arbennig ar sefydlu FfMLl ac ar ddethol a phenodi aelodau. Fe luniwyd y cyngor yma'n dilyn y profiad a gafwyd gyda'r Fforymau Mynediad Lleol interim a ddatblygwyd yng Nghymru yn ystod 2001. Fe sefydlwyd y rhain cyn i'r Fforymau ddod yn ofynnol yn gyfreithiol, ac fe fydd rhain yn ailffurfio'n FfMLl statudol yn awr. Hefyd, mae'r ddogfen yn defnyddio cyngor gafwyd mewn adroddiad a baratowyd ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r *Countryside Agency* yn 2000[1]. Fe ddosbarthwyd drafft cynta'r cyngor yma fel dogfen ymgynghorol i awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru, ac mae'r sylwadau a gafwyd wedi cael eu hystyried. Fe gynhyrchwyd y ddogfen yma mewn ymgynghoriad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cymorth gyda sefydlu Fforymau Mynediad Lleol**

Dyma'r gyntaf mewn cyfres fer o nodiadau cynghori y bydd CCGC yn eu cynhyrchu i helpu awdurdodau penodi i sefydlu a chynnal Fforymau Mynediad Lleol. Mae yna nodiadau cynghori pellach ar y gweill yn ymwneud â 'Rôl, Dyletswyddau a Swyddogaeth y FfMLl' ac 'Adroddiadau Blynyddol y FfMLl'

Mae CCGC wedi ymroddi i helpu a chynghori awdurdodau penodi gyda'r gwaith o sefydlu Fforymau Mynediad Lleol. Er mwyn gwneud hynny, rydyn ni wedi penodi swyddog sydd â'r prif ddyletswydd o helpu gyda'r broses yma. I gael mwy o fanylion, cysylltwch â:

Quentin Grimley
Swyddog Fforymau Mynediad
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2DN

Ffôn: 01248 385781
Ffacs: 01248 385511
E-bost: q.grimley@ccw.gov.uk

1 *The membership, role and operation of Local Countryside Access Forums* (adroddiad heb ei gyhoeddi.) Independent Research Services (2000).

# 2. Sefydlu fforwm *Rheoliad 3*

## 2.1. Y rheidrwydd i sefydlu FfMLl / LAFs

**Yn ôl Rheoliad 3(1) a Rheoliad 3(2) rhaid i awdurdodau penodi (AP) sefydlu un FfMLl o leiaf ar gyfer eu hardal nhw.**

Mae'n bwysig bod FfMLl yn gallu rhoi cyngor effeithiol am faterion yn ei ardal. Felly, mae'n debyg y bydd rhaid i awdurdodau penodi sy'n gyfrifol am ardaloedd mawr yng Nghymru sefydlu mwy nag un FfMLl. Wedi'r cyfan, rhaid i'r FfMLl roi cyngor am faterion 'lleol'.

Fe ddylai'r AP adolygu nifer a ffiniau'r FfMLl yn eu hardal pan fydd aelodaeth ei aelodau i gyd yn dod i ben (darllenwch bwynt 3.2). Fe ddylent ofyn i aelodau'r FfMLl eu hunain am gyngor ynglŷn â hynny.

## 2.2. Yr ardaloedd lle nad oes angen FfMLl

**Mae Rheoliad 3(3) a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Deddf CROW) (S94(8&9)) yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru benderfynu nad oes rhaid sefydlu FfMLl mewn ardal arbennig os bydd y Cynulliad yn fodlon nad oes angen FfMLl yno.**

Rydym yn rhagweld y bydd rhaid i bob AP yng Nghymru gael o leiaf un FfMLl. Os bydd unrhyw AP yn teimlo nad oes angen FfMLl ar gyfer eu hardal gyfan, neu ran o'u hardal, fe ddylent wneud cais i'r Cynulliad cyn gynted ag y gallent, yn rhestru'r rhesymau pam nad oes angen FfMLl yn yr ardal yna.

## 2.3. Y Dyddiad terfynol ar gyfer sefydlu FfMLl

**Mae Rheoliad 3(4) yn dweud bod rhaid i bob AP sefydlu FfMLl i ddelio gyda'u hardal gyfan o fewn blwyddyn ar ôl i'r rheoliadau ddod yn weithredol. (Felly, mae'n rhaid iddyn nhw gael eu sefydlu erbyn Rhagfyr 31ain 2002.)**

Hoffem eich atgoffa ei bod hi'n gallu cymryd nifer o fisoedd i sefydlu FfMLl, yn enwedig o ran penodi aelodau a hysbysebu fel sydd rhaid yn y papurau newydd. Fe ddylech chi ystyried bod FfMLl wedi sefydlu'n ffurfiol o ddyddiad ei gyfarfod cyntaf. Felly, mae'n rhaid i awdurdodau penodi ystyried sefydlu FfMLl mor fuan ag sy'n bosib yn 2002, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod o'n cynnal ei gyfarfod cyntaf o fewn y terfynau amser gofynnol

## 2.4. Sefydlu FfMLl ar y cyd

**Mae Rheoliad 3(5) yn caniatáu i AP sefydlu FfMLl ar y cyd gydag un neu fwy o AP eraill. Fe gaiff y FfMLl yma fod yn gyfrifol am ran o ardal pob AP, neu am yr ardal gyfan.**

Fe ddylai AP ystyried yn fuan yn y broses a fyddai'n fuddiol iddo sefydlu FfMLl ar y cyd gydag awdurdod sy'n gymydog iddo ar gyfer ei ardal gyfan, neu ran ohoni. Mae'n debyg y byddai FfMLl ar y cyd yn ddewis addas lle mae yna faterion arwyddocaol yn bodoli sy'n croesi'r ffin rhwng y ddau awdurdod, e.e. bloc o ucheldir neu gomin sy'n croesi'r ffiniau gweinyddol.

Fe ddylai'r AP benderfynu a yw am sefydlu FfMLl ar y cyd yn fuan yn y broses er mwyn osgoi'r anghyfleuster o uno FfMLl unigol yn hwyrach ymlaen.

Mae cynghorwyr cyfreithiol y Cynulliad Cenedlaethol a DEFRA wedi'n cynghori ni na fyddai'n ymarferol i sefydlu FfMLl ar y cyd sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Weithiau mae yna faterion arwyddocaol sy'n berthnasol i ddau FfMLl sy'n gymdogion am eu bod nhw'n croesi'r ffin rhyngddynt, neu am eu bod nhw'n berthnasol i'r ddau awdurdod, e.e. tiroedd comin mawr neu ddarnau o ucheldir mawr. Fe hoffem ni awgrymu bod dau FfMLl fel yma'n sefydlu trefniadau gweithio priodol ac y cyd – e.e. bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y FfMLl arall (fel arsylwyr / cynghorwyr) a / neu sefydlu gweithgor ar y cyd.

## 3. Aelodaeth y fforwm *Rheoliadau 4-9*

Wrth sefydlu FfMLl, y nod yw penodi grŵp o unigolion sydd â'r profiad, yr wybodaeth, y brwdfrydedd a'r cysylltiadau priodol i gyfrannu'n llawn i waith y FfMLl. Hynny yw, rhaid iddyn nhw allu cyfrannu'n llawn at waith Fforwm sy'n cynghori'r AP, CCGC a sefydliadau priodol eraill. Fe fydd y cyngor yma'n ymwneud â'r ffordd orau o wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal, gan ystyried anghenion rheoli'r tir a chadwraeth y tir.

### 3.1. Nifer yr aelodau

**Yn ôl Rheoliad 4(1) rhaid i FfMLl statudol gynnwys Cadeirydd, Is-Gadeirydd a rhwng 10 ac 20 o aelodau eraill (neu nifer arall sy'n is neu'n uwch na'r nifer yma os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi awdurdodi hynny'n ysgrifenedig). Felly, fel arfer, fe fydd FfMLl yn cynnwys rhwng 12 a 22 o aelodau. Nodwch bod rhaid penodi Ysgrifennydd hefyd ond dydi'r Ysgrifennydd yma ddim yn cyfri fel aelod o'r FfMLl (edrychwch ar adran 4.1.).**

Er bod FfMLl statudol yn gallu cynnwys rhwng 12 a 22 o aelodau, fe ddylai'r AP ystyried cael llai na'r uchafswm arferol o 22 ar y dechrau. Fe fydd hyn yn rhoi cyfle i'r AP, a'r FfMLl ei hun, benderfynu pwy (os bydd rhywun o gwbl) i'w penodi'n ychwanegol er mwyn gwneud yn siŵr bod yna gydbwysedd rhesymol yn y grŵp a bod yna rywun i gynrychioli pob carfan berthnasol.

Bydd yr AP yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr sy'n ateb eu gofynion nhw ar gyfer dod yn aelodau. Mae caniatâd iddyn nhw ddefnyddio'r ymgeiswyr oddi ar y rhestr fer yma am hyd at flwyddyn o ddyddiad y penodiadau cyntaf. Ar ôl hynny, bydd rhaid i'r grŵp benodi aelodau yn ôl y drefn sydd wedi'i disgrifio yn y rheoliadau.

Fe hoffem awgrymu bod y grŵp yn ceisio cadw nifer yr aelodau 'eraill' rhwng 10-20. Os bydd AP yn teimlo bod hynny'n amhosib, fe ddylen nhw wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y gallant, gan roi'r rhesymau pam fod angen mwy o aelodau arnyn nhw. Mae'n debyg na fyddan nhw'n cael caniatâd i gymryd mwy o aelodau os nad yw'r amgylchiadau'n rhai eithriadol, e.e. os bydd FfMLl yn gyfrifol am ardal eithriadol o fawr, neu os oes yna faterion mynediad eithriadol amrywiol i'w hystyried. Ond, mewn achosion fel yma, fe ddylai'r AP benderfynu'n gyntaf a ddylen nhw sefydlu mwy nag un FfMLl er mwyn delio â'r materion lleol i gyd yn ddigonol.

### 3.2. Cyfnod y penodiad

**Mae Rheoliad 4(3) yn dweud bod rhaid penodi pob aelod o Fforwm am dair blynedd o ddyddiad y cyfarfod cyntaf, neu am gyfnod byrrach sydd wedi'i bennu gan yr AP.**

Er mwyn adolygu pa mor effeithiol yw FfMLl, ac er mwyn adolygu ei aelodaeth a'i ddaearyddiaeth, fe ddylai'r penodiadau i gyd ddod i ben ar yr un dyddiad - sef tair blynedd o ddyddiad y cyfarfod cyntaf. Felly, fe ddylai'r aelodau hynny sy'n cael eu penodi ar ôl y cyfarfod cyntaf gael eu penodi hyd yr un dyddiad â'r aelodau hynny gafodd eu penodi o'r cychwyn un.

Ychydig o amser cyn i benodiadau'r aelodau i gyd ddod i ben, bydd angen i'r AP fynd drwy'r un broses o benodi aelodau ag o'r blaen. Fe fydd perffaith hawl i ail benodi'r aelodau sy'n bodoli'n barod.

### 3.3. Dethol aelodau

**Mae Rheoliadau 7-9 yn amlinellu'r camau mae'n rhaid i AP eu cymryd wrth benodi aelodau, ar y dechrau a phan fydd penodiad yr aelodau i gyd yn dod i ben (darllenwch bwynt**

**3.2). Fe hoffem dynnu'ch sylw'n arbennig at y ffaith fod rhaid i AP roi hysbyseb mewn papur lleol yn gwahodd ceisiadau pan fydden nhw'n ystyried aelodau newydd.**

Drwy gydol y broses ddethol, fe ddylech gofio mai'r dasg yw cael FfMLl effeithiol a chytbwys sy'n cynrychioli'r carfannau perthnasol i gyd. Mae'r paragraffau nesaf yn rhoi cyngor ar wneud hyn.

### 3.3.1. Y drefn ar gyfer dethol aelodau

Mae'n debyg y bydd y ceisiadau a'r enwebiadau yn dod o bedair prif ffynhonnell.

a) **Penodi aelodau'r awdurdod**

**Mae Rheoliadau 6(1) a 6(2) yn dweud bod rhaid i AP benodi un aelod (ond heb fod yn fwy nag un aelod) i'r FfMLl sydd naill ai'n aelod neu'n swyddog yn yr AP. Maen nhw'n dweud hefyd bod rhaid i FfMLl ar y cyd sydd â mwy nag un awdurdod penodi gael dau (ond heb fod yn fwy na dau) o aelodau o'r AP.**

Mater i'r AP yn unig yw penderfynu pwy fydd eu haelod ar y FfMLl. Ni fydd y FfMLl yn cael cynnwys unrhyw aelod neu swyddog arall o'r AP, heblaw'r rheini sydd wedi cael eu penodi yn unol â'r rheoliad yma.

b) **Ceisiadau sy'n dod drwy hysbyseb papur newydd a hysbysebion eraill**

**Mae Rheoliad 7b yn dweud bod rhaid i AP osod hysbyseb mewn papur newydd sy'n lleol i ardal y FfMLl, er mwyn rhoi cyfle i bobl fynegi diddordeb mewn bod yn aelod o'r Fforwm.**

Fe ddylai'r AP ystyried pob cais am aelodaeth sy'n dod yn uniongyrchol o hysbysebion papur newydd mewn ffordd deg a chyfartal, ochr yn ochr â'r ceisiadau a'r enwebiadau eraill i gyd.

Er bod y rheoliadau'n dweud bod rhaid gosod hysbyseb mewn un papur lleol, fe hoffem ni argymell yn gryf bod AP yn ystyried hysbysebu'n ehangach er mwyn gwneud yn siŵr bod cymaint o bobl ag sy'n bosib yn ymwybodol o'r cyfle. Yn aml iawn, mae hysbysebion ffurfiol yn gallu mynd ar goll ymysg y 'swyddi gwag' a'r 'hysbysebion cyhoeddus'. Yn ogystal â thalu am hysbyseb, fe hoffem awgrymu bod AP yn cyhoeddi datganiad i'r wasg hefyd ac yn rhoi hysbyseb ar eu gwefan. Fe allen nhw ofyn i gyrff eraill, e.e. grwpiau mynediad a pherchnogion tir hysbysebu'r cyfle. Fe fyddem yn argymell bod yr AP yn cadw'r hysbysebion mor fyr ac mor atyniadol ag sy'n bosib. Pan fydd pobl yn mynegi diddordeb yn y cyfle, fe allai'r AP anfon rhagor o fanylion atyn nhw. Mae yna hysbyseb enghreifftiol yn Atodiad 1.

c) **Enwebiadau gan fudiadau eraill am aelodaeth**

**Mae Rheoliad 7c yn caniatáu i AP wahodd mudiadau eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y fforwm i enwebu pobl i'w hystyried.**

Does dim rhaid i'r bobl sydd wedi cael eu henwebu fod yn aelodau o'r corff sy'n eu henwebu nhw. Fe hoffem ni awgrymu bod yr AP yn ystyried pa fudiadau sy'n berthnasol yn eu hardal nhw ac yn gwahodd y mudiadau yma i gyflwyno enw, neu enwau, i'w hystyried.

Dan rai amgylchiadau, fe allai'r AP benderfynu gwahodd awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill i enwebu aelodau posib. Mae'n debyg y byddai hynny'n arbennig o briodol lle mae awdurdod y Parc Cenedlaethol yn awdurdod penodi hefyd. Mewn achosion fel yma, fe fyddem ni'n awgrymu bod cynrychiolydd o'r awdurdod(au) priffyrdd perthnasol yn cyfrannu mewn rhyw ffordd – naill ai fel aelod neu fel arsyllwr (darllenwch bwynt 6.4).

### ch) Aelodaeth mewn fforwm sy'n bodoli'n barod

Mae gan rai awdurdodau fforymau sy'n bodoli'n barod i ddelio'n unig, neu'n rhannol, â materion mynediad. Mae'r profiad a'r arbenigedd sydd gan aelodau'r fforymau yma'n werthfawr iawn ac fe ddylid eu gwahodd nhw i wneud cais am aelodaeth ar y FfMLl statudol. Ond, fe ddylech ystyried yr unigolion yma gyda'r holl enwebiadau a'r ceisiadau eraill, ac ni ddylen nhw ddod yn aelodau o FfMLl statudol newydd yn awtomatig.

### Proses enghreifftiol ar gyfer dethol aeoldau

1. **Gwahodd pobl i enwebu a mynegi diddordeb.** Edrychwch ar y nodiadau uchod.
2. **Anfon ffurflen gais a 'Chanllawiau ar gyfer Aelodau Posib' at bawb sy'n mynegi diddordeb.** Mae yna ffurflen gais enghreifftiol a 'Chanllawiau ar gyfer Aelodau Posib' yn atodiadau I a II.
3. **Cael y ffurflenni cais yn ôl.**
4. **Ystyried y ffurflenni** gan ystyried y Deddf, rheoliadau statudol y FfMLl a'r meini prawf sydd wedi cael eu hawgrymu gan CCGC ar gyfer dethol aelodau. Mae'n rhaid i AP ystyried Rheoliadau 7d-f ac 8 yn arbennig.
5. **Llunio rhestr fer** o ymgeiswyr sy'n ateb gofynion yr AP ar gyfer penodi.
6. **Cynnal cyfweliadau (os oes rhaid).** Mae'n debyg y bydd rhai aelodau wedi cael eu penodi ar sail eu ffurflenni cais ac ar sail unrhyw wybodaeth flaenorol sydd gan yr AP amdanyn nhw. Ond, mewn rhai achosion, dydi hi ddim yn amlwg pwy ydi'r ymgeiswyr mwyaf addas heb gynnal cyfweliadau.
7. **Penderfynu pa bobl i'w gwahodd i ddod yn aelodau,** gan ystyried, unwaith eto, Ddeddf CROW, rheoliadau FfMLl, a'r meini prawf sydd wedi cael eu hawgrymu gan CCGC ar gyfer dethol aelodau
8. **Anfon llythyrau i gadarnhau'r penodiadau.** Fe ddylai'r AP benodi'r aelodau am dair blynedd ac fe ddylai'r aelodaeth gychwyn o ddyddiad y cyfarfod cyntaf.

### Meini prawf enghreifftiol ar gyfer dethol aelodau

Mae'n hanfodol bod aelodau'r FfMLl:

* yn ymroddedig i waith y Fforwm fel mae hwnnw wedi'i ddisgrifio yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CROW)

  *gwaith Fforwm fydd rhoi cyngor i'r awdurdod lleol, i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac i eraill am 'wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal yna ar gyfer adloniant awyr agored ac er mwyn mwynhau'r ardal';*

* yn gallu, ac yn barod i chwarae rhan gyflawn ymhob agwedd ar waith y FfMLl – efallai na fydd y bobl sy'n gallu cynrychioli rhan benodol a bychan o waith y FfMLl yn aelodau addas, a fyddan nhw ddim yn barod i fod yn aelodau;

Fe fyddai'n fanteisiol i aelod o'r FfMLl:

* fod â phrofiad eang o faterion mynediad yn yr ardal;
* fod â phrofiad o weithio ar fforymau neu weithgorau tebyg yn y gorffennol, ac wedi cyfrannu at eu gwaith nhw;
* fyw yn ardal y Fforwm, neu fod yn arbennig o gyfarwydd ag ardal y Fforwm, neu fod ag unrhyw ddiddordeb arall sy'n arbennig o berthnasol i ardal y Fforwm;
* allu rhwydweithio gydag amrywiaeth eang o gyrff ac unigolion, gyda'r nod o roi cyngor iddyn nhw am eu barn a lledaenu gwaith y FfMLl.

### 3.3.2. Y meini prawf ar gyfer dethol aelodau

Unwaith y bydd yr AP wedi cael yr enwebiadau i gyd, ei waith wedyn fydd penderfynu ar aelodaeth gychwynnol y FfMLl. Mae hon yn broses hanfodol oherwydd mae effeithiolrwydd y FfMLl yn dibynnu i raddau helaeth ar wybodaeth a phrofiad ei aelodau a'u gallu nhw i gymryd rhan yn gyflawn yng ngwaith y FfMLl.

Mae'n rhaid iddyn nhw ystyried y materion yma'n arbennig:

#### a) Gwaith y FfMLlF

Mae'n bwysig fod pob aelod o'r FfMLl yn cytuno i weithio o fewn cyd-destun swyddogaethau'r Fforymau Mynediad Lleol fel maen nhw wedi eu diffinio yn Neddf CROW (S94(4)). Cofiwch fod yr adran yma o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol bennu swyddogaethau ychwanegol mewn rheoliadau, ond eu bod nhw wedi dewis peidio.

Felly, unig ddyletswydd statudol FfMLl yw:

Cynghori'r awdurdod lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill am 'wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal yna ar gyfer adloniant awyr agored ac er mwyn mwynhau'r ardal'.

Mae'r swyddogaeth yma'n un hollol bositif ac ni ddylai'r AP benodi pobl sydd eisiau ymuno am resymau gwahanol i hyn.

#### b) Cydbwysedd

**Mae Rheoliad 7e a Deddf CROW (S95(2&4)) yn ei gwneud hi'n gyfrifoldeb statudol ar yr AP i wneud yn siŵr bod yna gydbwysedd rhesymol rhwng a) diddordebau'r bobl sy'n defnyddio'r llwybrau cyhoeddus lleol a'r hawl mynediad newydd i gefn gwlad agored, a b) pherchnogion a deiliaid y tir lle mae hawl mynediad neu dir lle mae yna lwybrau cyhoeddus.**

Mae'n rhaid cael 'cydbwysedd rhesymol'. Wrth gwrs, fe fydd rhai aelodau naill ai'n niwtral i bob pwrpas, neu â diddordeb yn yr agweddau mynediad a pherchnogaeth tir. Fe ddylai'r AP ystyried hyn wrth geisio cael cydbwysedd cyffredinol.

#### c) Sicrhau cynhwysiad cymdeithasol

**Yn ôl Rheoliad 7f rhaid i AP, pan fydden nhw'n penderfynu pa bobl i'w penodi fel aelodau o'r FfMLl, ystyried bod yna gydbwysedd teg - cyn belled ag y bo'n ymarferol - rhwng pobl o wahanol rywiau, hiliau, oed, anableddau a nodweddion eraill.**

Ni ddylai'r broses o sicrhau cynhwysiad cymdeithasol fynd yn groes i'r deddfau gwahaniaethu. Felly, fe ddylai'r AP ddilyn egwyddorion Nolan a chadw at ysbryd Côd Ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. http://www.ocpa.gov.uk.

#### d) Ehangder gwybodaeth / carfannau

Mae'n bwysig bod pob carfan berthnasol yn cael ei chynrychioli ar y FfMLl. Fe hoffem awgrymu bod AP yn llunio rhestr o'r carfannau yma cyn dethol yr aelodau (e.e. perchnogion tir, ffermwyr a phobl eraill sydd â hawliau cyfreithiol dros ddefnydd y tir, cerddwyr, pobl sy'n marchogaeth, pobl sy'n reidio beic, yr anabl etc.). Yn ogystal â pherchnogion/ deiliaid tir a phobl sy'n defnyddio hawliau mynediad i dir, mae Deddf CROW (S95(2)(c)) yn dweud bod rhaid i AP benodi cynrychiolwyr o 'unrhyw garfannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i ardal yr awdurdod'. Fe fydd yr unigolion sydd â gwybodaeth am fwy nag un carfan, neu sy'n cynrychioli mwy nag un carfan, yn werthfawr iawn i'r FfMLl. Mae'n bwysig bod aelodau'r FfMLl yn gallu chwarae rhan gyflawn ymhob agwedd ar waith y FfMLl, a'u bod nhw'n barod i gyfrannu

#### e) Penodiadau unigol

Mae'n debyg bod llawer o aelodau'r FfMLl yn aelodau o fudiadau penodol, ac yn cael eu henwebu ganddyn nhw. Ond, rhaid pwysleisio mai'r person enwebol, nid y mudiad, sydd yn cael ei benodi i'r FfMLl. Felly, mae'n bwysig bod yr aelod yn ymrwymo i ddod i bob cyfarfod, oherwydd dydi'r dirprwyon ddim yn cael dod i'r cyfarfodydd fel aelodau. (Ond, ar ddewis y Cadeirydd, fe fydd dirprwy yn cael dod fel arsylwr).

# 4. Gweinyddu fforwm *Rheoliadau 10-11*

### 4.1. Ysgrifennydd y FfMLl

**Yn ôl Rheoliadau 10(1) a 10(2) rhaid i AP benodi person enwebol fel Ysgrifennydd y FfMLl ac amlinellu prif ddyletswyddau'r Ysgrifennydd. Rhaid i'r Ysgrifennydd ddod i bob un o gyfarfodydd y FfMLl ond dydi'r Ysgrifennydd ddim yn cyfri fel un o aelodau'r FfMLl, a dydyn nhw ddim yn cael pleidleisio.**

Fel arfer, fe fydd Ysgrifennydd y FfMLl yn gweithio i'r AP, ond dydi'r rheoliadau ddim yn dweud bod hyn yn angenrheidiol. Er bod yr Ysgrifennydd yn gyfrifol am weinyddu'r FfMLl yn unol â'r rheoliadau, dydi penodiad yr Ysgrifennydd ddim yn eithrio pobl eraill rhag helpu gyda thasgau gweinyddol. Er enghraifft, fe allai rhywun arall ddrafftio'r cofnodion a threfnu lleoliad y cyfarfodydd. Fe fydd rhaid i'r Ysgrifennydd lywyddu'r cyfarfod cyntaf ac arwain etholiad y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn yr ail gyfarfod.

### 4.2. Treuliau

**Yn ôl Rheoliad 11 rhaid i AP dalu holl dreuliau rhesymol y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r aelodau (ond nid yr arsylwyr).**

Dydi hyn ddim yn cynnwys colli cyflog, neu dreuliau eraill sy'n uniongyrchol berthnasol i swydd. Ond, mae'r treuliau'n cynnwys costau teithio a chostau gofalu am blant, henoed neu bobl anabl sy'n dibynnu ar y person perthnasol. Hefyd, fe ddylai'r AP ad-dalu pob cost sy'n uniongyrchol berthnasol i aelodaeth y fforwm. Fe allai hynny gynnwys llungopïo dogfennau ar gyfer cyfarfodydd, costau postio, costau galwadau ffôn a mân gostau wrth fynd i gyfarfodydd ar ran y FfMLl. Fe fyddai cyfarfodydd fel yma'n cynnwys hyfforddiant, gweithdai FfMLl, pwyllgorau FfMLl ac ymweliadau i ganfod ffeithiau. Fe hoffem awgrymu bod yna ffurflen hawlio ar gael ym mhob cyfarfod.

# 5. Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd *Rheoliadau 12*

**Mae Rheoliad 12 yn amlinellu'n fanwl pa drefn mae'n rhaid ei mabwysiadu wrth benodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd. Mae'n tynnu sylw'n arbennig at y ffaith fod rhaid ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd trwy bleidlais ddirgel fel eitem gyntaf y busnes yn ail gyfarfod y FfMLl. Dim ond aelodau'r FfMLl sy'n cael ymgeisio am y safleoedd yma. Yr Ysgrifennydd sy'n llywyddu'r etholiad.**

Rydym yn awgrymu bod yr ymgeiswyr yn cael eu cynnig gan aelodau eraill o'r FfMLl. Gwaith y FfMLl ei hun, yn ei gyfarfod cyntaf, fydd penderfynu sut mae eisiau gweinyddu'r etholiad. Ond, rhaid i'r FfMLl gofio cadw at y rheoliadau. Fe allai ofyn i bawb sydd eisiau ymgeisio yn yr etholiad ddarparu nodyn byr yn disgrifio'u sgiliau a'u diddordebau i'w dosbarthu i'r aelodau cyn yr ail gyfarfod. Fe fyddai hyn yn caniatáu i'r aelodau wneud dewis sydd mor gytbwys ag sy'n bosib.

# 6. Cynnal cyfarfodydd fforwm rheolaidd *Rheoliadau 15*

## 6.1. Amser a lleoliad y cyfarfodydd

**Yn ôl Rheoliad 15(1) fe fydd dau gyfarfod cyntaf y FfMLl yn digwydd ar amser ac mewn lle sy'n dderbyniol gan yr AP. Yr Ysgrifennydd sy'n llywyddu'r cyfarfodydd a'r AP sy'n gosod yr agenda. O'r trydydd cyfarfod ymlaen, mae'r FfMLl ei hun yn cytuno ar y lleoliadau a'r amseroedd ond rhaid iddyn nhw gyfarfod o leiaf ddwywaith ym mhob cyfnod o 12 mis. Rhaid iddyn nhw weithio hyn allan o'r dyddiad pan gafodd y FfMLl ei sefydlu (h.y. ei gyfarfod cyntaf).**

Wedi'i seilio ar brofiad fforymau mynediad anffurfiol sy'n bodoli'n barod, fe fyddem ni'n awgrymu bod FfMLl yn ceisio cyfarfod o leiaf 3-4 gwaith y flwyddyn yn gyffredinol. Efallai na fydd cyfarfod ddwywaith yn rhoi digon o amser i'r FfMLl wneud ei waith yn effeithiol yn ystod y blynyddoedd cynnar. Ond, mae'r rheoliad ynglŷn â hyn yn cydnabod y gallai'r gofynion statudol ar y FfMLl ostwng mewn blynyddoedd diweddarach.

## 6.2. Mynediad i'r cyhoedd

**Yn ôl Rheoliad 15(2) rhaid i bob cyfarfod FfMLl fod yn agored i'r cyhoedd, heblaw fod y person sy'n llywyddu yn dweud bod rhaid eu heithrio nhw o rai eitemau busnes arbennig.**

Dan amgylchiadau eithriadol, mae modd eithrio'r cyhoedd am resymau cyfrinachedd personol neu gyfrinachedd masnachol.

Fe hoffem awgrymu bod yr AP ac aelodau'r FfMLl yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu hysbysebu'n dda. Er enghraifft, fe allai'r AP roi hysbyseb am y cyfarfod mewn papur lleol sydd ar gael drwy ardal y FfMLl. Unwaith maen nhw wedi cael eu penodi, fe ddylai aelodau'r FfMLl hysbysebu'r cyfarfodydd drwy unrhyw sianelau sy'n agored iddyn nhw. Fe allai trefnu cyhoeddusrwydd i'r cyfarfodydd fod yn eitem ar un o agendâu cyntaf y FfMLl.

Fe ddylai'r FfMLl ystyried pa mor hawdd yw hi i'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod wrth ddewis amseriad a lleoliad y cyfarfodydd. Er enghraifft, efallai y bydd cyfarfodydd gyda'r nos yn well ar gyfer y cyhoedd, ac fe allai'r FfMLl ystyried amrywio lleoliadau'r cyfafodydd i roi cyfle i holl drigolion yr ardal ddod iddyn nhw. Fe ddylen nhw hefyd ystyried pa gyfleusterau sydd ar gael e.e. mynediad i'r anabl, cysylltiadau cludiant cyhoeddus a meysydd parcio.

## 6.3. Rheoli'r gweithdrefnau

**Mae Rheoliad 15(5) yn caniatáu i FfMLl reoli'u gweithdrefnau'u hunain ar yr amod eu bod nhw'n cydymffurfio â'r rheoliadau, a'u bod nhw'n ystyried unrhyw ganllawiau mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.**

Fe hoffem awgrymu bod FfMLl yn datblygu ei Gylch Gorchwyl ei hun, gan ystyried Deddf CROW a'r rheoliadau. Fe ddylai fabwysiadu'r Cylch Gorchwyl ac fe ddylai aelodau'r FfMLl ei arwyddo. Mae yna Gylch Gorchwyl enghreifftiol yn Atodiad IV.

## 6.4. Statws yr arsylwyr a'r cynghorwyr

**Yn ôl Rheoliad 15(8) gall y Cadeirydd wahodd arsylwyr a / neu gynghorwyr i gyfarfod, ac fe fyddan nhw'n cael gyfrannu os bydd y person sy'n llywyddu yn ystyried hynny'n briodol. Mae Rheoliad 15(9) yn rhestru'r mudiadau sy'n cael dod i'r FfMLl fel arsylwyr heb wahoddiad.**

Fe fydd gan arsylwyr a chynghorwyr ran hanfodol yn y FfMLl – yn arbennig o ran rhoi cyngor ar bynciau nad yw'r aelodau'n gyfarwydd â nhw, ac o ran lledaenu gwaith y FfMLl. Fe hoffem ni awgrymu bod yr aelodau'n

cytuno ar restr gychwynnol o arsylwyr a chynghorwyr yn un o gyfarfodydd cyntaf y FfMLl (unwaith mae'r Cadeirydd yn ei swydd). Fe fydd yn gwahodd rhai o'r rhain i fynychu'r cyfarfodydd i gyd, ac yn gwahodd eraill ar sail ad-hoc pan fydd eu hangen nhw. Fe gaiff y Cadeirydd wahodd naill ai unigolyn sydd wedi cael ei enwi, neu gynrychiolydd o'r mudiad.

Am na chaiff Cadeirydd y FfMLl ei benodi tan yr ail gyfarfod, dydi hi ddim yn bosib gwahodd arsylwyr / cynghorwyr tan y trydydd cyfarfod. Ond, fe fydd arsylwyr sydd wedi cael eu rhestru yn Rheoliad 15(9) yn cael dod i'r cyfarfodydd, a rhaid cofio bod hawl i'r cyhoedd ddod i'r cyfarfodydd i gyd.

Fe ddylech nodi mai dim ond un arsylwr statudol sy'n cael dod o CCGC ac un o'r Cynulliad Cenedlaethol dan Reoliad 15(9). Fe fydd rhaid i unrhyw arsylwyr ychwanegol o CCGC/CCC gael gwahoddiad yn unol â Rheoliad 15(8).

### 6.5. Cyfarfodydd dwyieithog

Fe fydd hi'n syniad darparu cyfleusterau cyfieithu mewn rhai rhannau o Gymru. Mae hyn yn cynnwys cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a chyfieithu agendâu, cofnodion a phapurau etc. Fe hoffem awgrymu bod FfMLl yn dilyn trefn arferol eu hawdurdod/hawdurdodau penodi, gan gofio bod hawl i'r cyhoedd ddod i'r cyfarfodydd hefyd. Os nad yw gwasanaeth cyfieithu wedi cael ei ddarparu'n awtomatig, fe ddylid gofyn i aelodau'r FfMLl am eu barn ar y mater.

## 7. Hysbysu pobl am benodiadau *Rheoliadau 17*

**Yn ôl Rheoliad 17 rhaid i'r AP roi enwau a chyfeiriadau aelodau'r FfMLl i CCGC, gan anfon copi i'r Cyngor o bob adroddiad blynyddol swyddogol, a rhoi unrhyw wybodaeth arall iddo o fewn rheswm.**

Fe ddylai'r AP anfon rhestr o aelodau'r FfMLl at Swyddog Fforymau Mynediad CCGC (mae'r cyfeiriad ar waelod adran 1) cyn gynted ag sy'n bosib ar ôl y cyfarfod cyntaf. Hefyd, mae CCGC ar gael i helpu'r AP gyda sefydlu'r FfMLl ac fe fydd y Cyngor hefyd yn bwynt canolog ar gyfer pob gwybodaeth sy'n berthnasol i FfMLl.

## ATODIAD I - Hysbyseb enghreifftiol yn gwahodd pobl i fynegi diddordeb

# Cyngor Sir...............

# Fforwm Mynediad Lleol.............

### Gwahoddiadau i bobl fynegi eu diddordeb mewn bod yn aelod o'r Fforwm

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir ............. yn y broses o ffurfio Fforwm Mynediad Lleol statudol, fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Fe fydd y Fforwm yn cynnwys rhwng 12 a 22 o aelodau.

Gwaith y Fforwm fydd cynghori'r awdurdod lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill, am ffyrdd o wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal ar gyfer adloniant awyr agored ac er mwyn mwynhau'r ardal.

Fe fydd y Fforwm yn cyfarfod o leiaf [nifer penodol] o weithiau bob blwyddyn ac mae'n debyg y bydd yn cyfarfod yn amlach na hynny. Mae'n bwysig bod yr aelodau'n gallu dod i bob cyfarfod, oherwydd ni fydd hawl i ddirprwyon ddod yn eu lle. Ni fydd yr aelodau cael eu talu, ond fe fydd aelodau'r Forwm yn cael hawlio ad-daliad am dreuliau rhesymol.

Gall unrhyw un sydd eisiau cael ei ystyried ar gyfer bod yn aelod gael rhagor o fanylion gan:

**Swyddog Mynediad, ............... Cyngor Sir ............................,**
**.....................................Côd post ............ Ffôn ....................**

## ATODIAD II – Canllawiau enghreifftiol ar gyfer aelodau posib y FfMLl

# Cyngor Sir .................



# Fforwm Mynediad Lleol ........................

CANLLAWIAU AR GYFER AELODAU POSIB

**Y Cefndir**

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir ............ yn y broses o ffurfio Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl/LAF) statudol, fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CROW).

Gwaith y Fforwm fydd cynghori'r awdurdod lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a chyrff eraill sy'n gweithredu o dan Adran 1 Deddf CROW. Ei ddyletswydd fydd trefnu ffyrdd o wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal ar gyfer adloniant awyr agored ac er mwyn mwynhau'r ardal. Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r cyrff yma gadw at unrhyw gyngor perthnasol mae'r Fforwm yn ei roi iddyn nhw.

Mae'r Rheoliadau'n gofyn bod y Fforwm yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ond mae'n debyg y bydd yn cyfarfod yn amlach na hynny. Fe fydd yn cyfarfod ar amser ac mewn lle sydd wedi cael eu cytuno gan aelodau'r Fforwm

**Meysydd gwaith**

Fe fydd y FfMLl yn cynghori ar agweddau ar fynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal, yn cynnwys llwybrau cyhoeddus a'r hawliau mynediad newydd i gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig. Fe fydd y Fforwm yn ystyried mynediad o bob math, yn cynnwys marchogaeth ceffyl, reidio beic a gyrru modur oddi ar y ffordd - nid mynediad i gerddwyr yn unig. Fe fydd y FfMLl ei hun yn penderfynu beth fydd union natur y gwaith yma, mewn cytundeb â'r awdurdod lleol. Ond, mae'n debyg y bydd gwaith y FfMLl yn ei flwyddyn gyntaf yn cynnwys:

- ymgynghori ar fapiau drafft o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig;
- gwneud sylwadau ar reoliadau drafft y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sy'n cael eu llunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ystyried gwelliannau i lwybrau cyhoeddus yr ardal.

Mae yna rai materion arbennig y mae'n rhaid ymgynghori â Fforwm Mynediad Lleol ynglŷn â nhw, yn ôl y deddfau statudol. Dyma rai ohonyn nhw:

- paratoi mapiau drafft o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig;
- penodi wardeiniaid ar gyfer y tir lle mae mynediad;
- pennu Deddfau Lleol sy'n berthnasol i'r tir yma;
- paratoi neu adolygu Cynllun Gwella Llwybrau Cyhoeddus; a
- ceisiadau am greu eithriadau neu waharddiadau tymor hir ar fynediad i'r tir yma.

**Meini prawf ar gyfer dethol**

Ar y dudalen yma mae rhestr o feini prawf ar gyfer barnu ceisiadau. Ond, ni fydd rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â phob un o'r meini prawf er mwyn llwyddo.

Mae'n hanfodol bod aelodau'r FfMLl:

- yn ymroddedig i waith y Fforwm:

  gwaith y Fforwm fydd rhoi cyngor i'r awdurdod lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill ar wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal yna ar gyfer adloniant awyr agored ac er mwyn mwynhau'r ardal;

- yn gallu chwarae rhan gyflawn ymhob agwedd ar waith y FfMLl, a bod yn barod i gyfrannu – efallai na fydd y bobl sy'n gallu, neu sy'n barod i gynrychioli, rhan fach benodol o waith y FfMLl yn aelodau addas;

Fe fyddai'n fanteisiol i aelod o'r FfMLl:

- fod â phrofiad eang o faterion mynediad yn yr ardal;
- bod â phrofiad o weithio ar Fforymau tebyg yn y gorffennol, ac wedi cyfrannu i'w gwaith nhw;
- byw yn ardal y Fforwm, neu fod yn arbennig o gyfarwydd ag ardal y Fforwm, neu fod ag unrhyw ddiddordeb arall sy'n arbennig o berthnasol i ardal y Fforwm;
- gallu rhwydweithio gydag amrywiaeth mawr o gyrff ac unigolion, gyda'r nod o ledaenu gwaith y FfMLl;
- gallu dod i bob un o gyfarfodydd y Fforwm (ni fydd hawl i ddirprwyon ddod iddyn nhw).

Ni fydd aelodau'r Fforwm yn cael eu talu, ond fe fydd modd iddyn nhw hawlio treuliau rhesymol, yn cynnwys costau gofalu am blant ac am henoed neu am bobl anabl sy'n ddibynnol arnyn nhw.

Mae'n debyg y bydd y ddau gyfarfod cyntaf ar --/--/02 a --/--/02 am xxxxx.

Os hoffech wneud cais i fod yn aelod, llenwch y ffurflen gais os gwelwch yn dda a'i dychwelyd erbyn --/--/02 at:

Swyddog Mynediad, Cyngor Sir Gwynfro, Rhodfa Fforddplas, Gwynor, Gwynfro, GG76 IGB.

Os bydd angen cynnal cyfweliadau, fe fyddwn yn eu cynnal ar --/--/02.

## ATODIAD III – Ffurflen gais enghreifftiol ar gyfer aelodau posib y FfMLl.

# Fforwm Mynediad Lleol....................................

### Cais am aelodaeth

Enw: ____________________________________________

Cyfeiriad: ________________________________________

Rhif ffôn cartref: ___________________________________

Rhif ffôn yn ystod y dydd: ____________________________

Swydd: __________________________________________

Sut glywsoch chi am y Fforwm Mynediad Lleol? ______________

Dywedwch pam y byddech chi'n aelod da o'r Fforwm Mynediad Lleol os gwelwch yn dda. Fe ddylech ddweud syt mae'ch ymateb yn berthnasol i'r 'Meini Prawf ar gyfer Dethol' sydd wedi cael eu cynnwys ar y daflen 'Canllawiau i Aelodau Posib'.

Mae croeso i chi gario mlaen ar ddarn o bapur plaen os nad oes digon o le.

*Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth yma'n wir ac yn gyflawn cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol.*

Arwyddwyd: ______________________________

Dyddiad: ______________________________

CYFLEOEDD CYFARTAL

## ATODIAD IV – Cylch Gorchwyl Enghreifftiol ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol

### Teitl

1. Fe fydd y Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei galw'n Fforwm Mynediad Lleol ***** .

### Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

2. Pwrpas Fforwm Mynediad Lleol ***** yw rhoi cyngor i'r awdurdodau lleol ac awdurdodau Parc Cenedlaethol perthnasol, i Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ac i eraill, fel sy'n briodol. Fe fydd y cyngor yma'n ymwneud â gwella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal ar gyfer adloniant awyr agored ac er mwyn mwynhau'r ardal, mewn ffyrdd sy'n ystyried rheolaeth tir, a diddordebau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgiadol.

3. Fe fydd Fforwm Mynediad Lleol ***** yn gwneud y gwaith yma drwy roi cyngor ar faterion sy'n arbennig o berthnasol yn lleol, yn cynnwys:

   a. cefnogi gweithrediad yr hawl tramwy newydd i ddarnau agored o gefn gwlad;

   b. gwella'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus; a

   c. datblygu strategaethau mynediad ac adloniant sy'n ystyried pawb

4. Fe fydd Fforwm Mynediad Lleol ***** yn gweithio i:

   a. ddatblygu agwedd bositif a chynhwysol tuag at wella mynediad yng nghefn gwlad i bwrpasau adloniant;

   b. parchu amgylchiadau lleol a theimladau gwahanol garfannau, gan weithio hefyd o fewn y canllawiau cenedlaethol;

   c. darparu cyngor ar faterion o egwyddor ac arferion da;

   ch. cymryd rhan mewn dadleuon positif a cheisio consensws lle bynnag mae hynny'n bosib; a

   d. lle nad yw consensws yn bosib, esbonio beth yw natur y gwahaniaeth barn, ac awgrymu ffyrdd o ddatrys hynny.

### Aelodaeth

5. Fe fydd yr aelodaeth yn cynnwys:

   a. Cadeirydd ac Is-Gadeirydd sydd wedi cael eu hethol yn unol â'r rheoliadau FfMLl;

   b. isafswm o 10, ac uchafswm o 20 o aelodau eraill. Rhaid i'r rhain gynnwys cynrychiolaeth gytbwys o i) ddefnyddwyr tir ar gyfer adloniant a ii) pherchnogion a deiliaid tir – ynghyd â chynrychiolwyr o garfannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal.

6. Fe fydd yr aelodaeth yn:

   a. gytbwys, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae un garfan arbennig yn ceisio dylanwadu ar y lleill;

   b. cynrychioli croestoriad o garfannau yn yr ardal; ac

   c. yn byw neu'n gweithio o fewn yr ardal, neu'n nabod yr ardal yn dda.

7. Fe fydd disgwyl i'r aelodau:

   a. gydymffurfio â'r adrannau sy'n ymwneud â FfMLl yn y Ddeddf CROW a'r rheoliadau a'r Cylch Gorchwyl yma;

   b. dangos ymrwymiad i wireddu amcanion y Fforwm Mynediad Lleol drwy weithio mewn ffordd bositif gydag aelodau eraill;

   c. gallu neilltuo'r amser angenrheidiol ar gyfer mynd i gyfarfodydd ac ar gyfer rhwydweithio y tu allan i gyfarfodydd;

   ch. bod â digon o brofiad o fynediad i gefn gwlad yn yr ardal lleol i allu gwneud cyfraniad positif ac adeiladol i wella darpariaeth mynediad yn lleol; a

e. gallu gweithio gyda nifer fawr o wahanol garfannau.

## Gweinyddiad

### Yr Ysgrifennydd

8. Bydd gan Fforwm Mynediad Lleol ***** Ysgrifennydd sydd wedi cael ei benodi gan yr awdurdod penodi. Bydd hwn/hon yn gyfrifol am:

   a. gefnogi Cadeirydd y Fforwm;

   b. gwneud yn siŵr bod y Fforwm wedi'i greu a'i gynnal yn unol â Deddf CROW, rheoliadau'r Fforwm Mynediad Lleol a'r Cylch Gorchwyl yma;

   c. rheoli unrhyw adnoddau sydd wedi cael eu bwriadu ar gyfer ei gwaith/ei waith;

   ch. trefnu a hybu cyfarfodydd, yn cynnwys trefnu i bapurau a gwybodaeth gyrraedd aelodau'r Fforwm ac aelodau'r cyhoedd;

   d. cynhyrchu cofnodion cyfarfodydd y Fforwm.

### Cyfarfodydd

9. Fe fydd y FfMLl yn cynnal cyfarfodydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ac yn amlach pan fydd rhaid. Fe fydd y FfMLl a'r awdurdod penodi yn cytuno ar hyn.

10. Y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd fydd yn cytuno ar agenda pob cyfarfod – ond gall unrhyw aelod awgrymu eitemau i'w hystyried ar gyfer yr agenda.

11. Fe fydd y cyfarfodydd yn cael eu hysbysebu o flaen llaw ac fe fydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi.

12. Fe fydd y Cadeirydd yn gwahodd arsylwyr/cynghorwyr i'r cyfarfod pan fydd hynny'n briodol.

13. Fe fydd arsylwyr/cynghorwyr yn cael cyfrannu at y cyfarfod yn ôl dewis y Cadeirydd.

14. Fe fydd gan un cynrychiolydd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, un cynrychiolydd o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac unrhyw swyddog o'r awdurdod penodi statws arsylwr yn awtomatig.

15. Os bydd rhaid, fe fydd y Cadeirydd yn creu pwyllgorau'r Fforwm Mynediad Lleol yn dilyn cytundeb gyda'r aelodau.

16. Fe fydd y Cadeirydd a'r aelodau yn cytuno ar gadeirydd, aelodau a chylch gorchwyl y pwyllgorau.

17. Fe fydd pob un o gyfarfodydd y FfMLl yn gyfarfodydd cyhoeddus. Ond, yn dilyn cais gan aelod neu aelodau, efallai y bydd y person sy'n llywyddu yn penderfynu bod rhaid eithrio'r cyhoedd rhag clywed rhai eitemau arbennig am resymau preifatrwydd personol neu gyfrinachedd masnachol.

# ATODIAD V – Eitemau enghreifftiol ar gyfer agenda'r ddau gyfarfod cyntafs

Yn realistig, fe fydd dau gyfarfod cyntaf y FfMLl yn ymwneud gan fwyaf â ffurfio'r FfMLl ei hun. Fe fyddan nhw hefyd yn gyfle i hysbysu'r aelodau o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Yn ôl Rheoliad 15(1) fe fydd yr AP yn gosod yr agenda. Dyma awgrymiad ar gyfer prif eitemau agenda'r cyfarfodydd yma.

## Y cyfarfod cyntaf

1. Cyflwyniad gan yr AP (yn cynnwys crynodeb o'r math o waith cynnar fydd y Fforwm yn ei wneud).
2. Disgrifiad o'r Ddeddf CROW, y rheoliadau a Chanllawiau CCGC.
3. Y drefn ar gyfer hawlio treuliau.
4. Esboniad o'r drefn benodi ar gyfer penodi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.
5. Enwebiadau ar gyfer y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

Fe ddylai'r AP ofyn i'r unigolion sydd wedi cael eu henwebu fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ddarparu nodyn ysgrifenedig byr yn rhestru'u sgiliau a'u diddordebau. Fe fydd Ysgrifennydd y FfMLl yn dosbarthu'r rhain i'r aelodau cyn yr ail gyfarfod.

## Yr ail gyfarfod

1. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.
2. Cytuno ar y Cylch Gorchwyl.
3. Trafodaeth ynglŷn ag arsylwyr ac aelodau ychwanegol
4. Amseriad a lleoliad cyfarfodydd y dyfodol.